

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Penmachno

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Penmachno yn gymuned ddysgu deuluol, gynhwysol a gofalgar lle mae pob disgybl yn cael eu meithrin a'u hannog i 'Dyfu a dysgu gyda'n gilydd.' Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng y disgyblion, y staff, y rhieni a'r gymuned ehangach.

Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau ysgogol a difyr i ddisgyblion sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn briodol erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Yn gyffredinol, nid yw adborth athrawon i ddisgyblion yn ddigon effeithiol i'w cefnogi i wybod beth i'w wneud i wella eu gwaith, a sut.

Mae pob disgybl yn aelod gwerthfawr o'r amrywiol gynghorau, ac mae eu llais a'u gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae sesiynau 'Llun Lles' a 'Gwener Gwych' yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau sy'n hybu cydweithio diwyd, er enghraifft wrth atgyfnerthu ystod dda o fedrau yn yr ardaloedd dysgu tu allan. Yn ogystal, mae'n hybu'r disgyblion i ddatblygu eu gwydnwch a gofal am eu lles emosiynol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus ac yn ymfalchïo mewn perthyn i'r ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod dda o brofiadau diddorol sy'n adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, am hanes a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol. Maent yn annog disgyblion i ddathlu eu Cymreictod drwy ystod o weithgareddau cofiadwy ac ymweliadau sy'n meithrin eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u balchder o'u hardal leol yn hynod effeithiol. At ei gilydd, nid yw lleiafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigymell gyda'i gilydd yn ddigon cyson wrth iddynt ddysgu a chwarae.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth strategol glir a chefnogol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol gyda brwdfrydedd a balchder, a gwneir defnydd medrus o'u harbenigeddau i gefnogi gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr adnabyddiaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau bod adborth athrawon yn helpu disgyblion i wybod beth i wella yn eu gwaith a sut**

**A2** **Cefnogi disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penmachno |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 38 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 32 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 6.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 31.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 62.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 20/10/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.